OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 401

## Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021

### RHAN 2

### CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

*Terfynau amser ar gyfer atgyfeiriadau adran 20 a gofyn bod y penderfyniad i beidio â chynnal cynlluniau yn cael ei ailystyried*

**Terfyn amser i gorff GIG ymateb i atgyfeiriad adran 20**

**11.**—(1) Rhaid i gorff GIG sydd o dan ddyletswydd i roi gwybod o dan adran 21(1) neu (2) o Ddeddf 2018 (cynlluniau datblygu unigol: Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG) gydymffurfio â'r ddyletswydd honno yn brydlon ac mewn unrhyw achos o fewn y cyfnod a ragnodir gan baragraff (2).

(2) Mae'r cyfnod rhagnodedig—

(a) yn dechrau â'r diwrnod y mae'r corff GIG yn cael yr atgyfeiriad o dan adran 20 o Ddeddf 2018, a

(b) yn dod i ben ar ddiwedd 6 wythnos sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod a grybwyllir yn is-baragraff (a).

(3) Nid oes angen i'r corff GIG gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi gwybod o dan adran 21(1) neu (2) o fewn y cyfnod a ragnodir gan baragraff (2) os yw'n anymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.

**Terfyn amser ar gyfer gofyn i benderfyniad i beidio â chynnal cynllun gael ei ailystyried**

**12.**—(1) Mae'r cyfnod a ragnodir at ddibenion adran 32(1)(b) o Ddeddf 2018 (ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau cyrff llywodraethu o dan adran 31)—

(a) yn dechrau â'r diwrnod y mae'r corff llywodraethu yn rhoi'r hysbysiadau o dan adran 31(8) a (9) o'r Ddeddf honno, a

(b) yn dod i ben ar ddiwedd 4 wythnos sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod a grybwyllir yn is-baragraff (a).

(2) Pan fo'r hysbysiadau o dan adran 31(8) a (9) yn cael eu rhoi ar ddiwrnodau gwahanol (pa un ai oherwydd eu bod yn cael eu rhoi i bersonau gwahanol ar ddiwrnodau gwahanol neu eu rhoi o dan bob is-adran ar ddiwrnodau gwahanol), mae'r cyfeiriad ym mharagraff (1)(a) at y diwrnod y mae'r corff llywodraethu yn rhoi'r hysbysiadau yn gyfeiriad at yr hwyrach o'r diwrnodau hynny.